

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Minfor, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 12 Awst 2025

Dyddiad cyhoeddi: 12 Tachwedd 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	27
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Minfor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 12 Awst 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr, a chwblhawyd 11 o holiaduron gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Meddygfa Minfor yn bractis dymunol a chroesawgar. Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i'r cleifion, ac roedd posteri a thaflenni yn y practis yn rhoi cyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag iechyd.

Roedd prosesau da ar waith i sicrhau bod cleifion yn gallu cael y gwasanaethau cywir mewn modd amserol. Roedd y practis yn rheoli amrywiadau sylweddol yn nifer y cleifion oherwydd twristiaeth, a dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn gallu cael apwyntiadau cyffredin pan oedd eu hangen arnynt.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau gwefan y practis i gynnwys rhagor o wybodaeth i gleifion
- Cynnal adolygiad o fynediad i bobl anabl

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darpariaeth dda o wasanaethau a deunyddiau Cymraeg.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod staff Meddygfa Minfor yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion. Roedd y cleifion yn cael budd o amrywiaeth o wasanaethau wedi'u cyd-leoli yn y practis ac roedd y staff clinigol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Roedd prosesau addas ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel, ac roeddent yn fanwl ac yn rhoi naratif clir am gyflwr a thriniaeth y cleifion.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Gwnaethom edrych ar y cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir i reoli argyfyngau meddygol. Gwnaethom nodi bod angen gwella'r canlynol ar unwaith.

- Sicrhau bod gwiriadau rheolaidd o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu cynnal a'u cofnodi
- Canoli'r broses o storio cyffuriau brys
- Cynnal adolygiad clinigol ac asesiad risg yn ddi-oed ac ystyried a yw'r cyffuriau brys priodol yn hygyrch pe bai eu hangen.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r adeilad er mwyn mynd i'r afael â materion cynnal a chadw a sicrhau y gellir rhoi mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Polisiâu a gweithdrefnau cyfredol i gefnogi'r staff a chleifion
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau i safon uchel
- Adborth cleifion am safon y gofal.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod tîm rheoli cefnogol ac ymroddedig ym Meddygfa Minfor a oedd yn gweithio er lles pennaf y staff a'r cleifion. Roedd rheolwr y practis yn bartner yn y practis. Roedd yn darparu arweinyddiaeth glir ac yn amlwg yn chwarae rhan ac yn weladwy.

Roedd ymatebion y staff i holiadur AGIC yn adlewyrchu amgylchedd gwaith cadarnhaol gyda'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a'u cefnogi'n ddigonol yn eu rolau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau perthnasol yn benodol i'r practis
- Rhoi systemau cadarn ar waith i fonitro a chofnodi cydymffurfiaeth y staff â gofynion hyfforddiant.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cymorth da ar gyfer llesiant y staff
- Arweinyddiaeth glir.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd gan gleifion i holiaduron AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda phawb yn dweud bod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar yr oriau agor, y gallu i gysylltu â'r practis a bod apwyntiadau cyffredin ar gael. Fodd bynnag, dywedodd llai o'r cleifion eu bod yn gallu cael apwyntiadau brys ar yr un diwrnod.

Roedd y rhan fwyaf yn ei chael hi'n hawdd cael cymorth ar gyfer cyflyrau parhaus ac roedd mwy na hanner y cleifion yn gwybod sut i gael gwasanaethau y tu allan i oriau.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod yr adeilad yn hygyrch, bod y practis yn lân iawn a bod deunyddiau hybu iechyd yn cael eu harddangos.

Cafwyd ymatebion cymysg mewn perthynas â phreifatrwydd wrth siarad â staff y dderbynfa, ond roedd y rhan fwyaf o'r farn bod preifatrwydd yn cael ei ddiogelu yn ystod ymgynghoriadau.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod apwyntiadau'n amserol, bod eu manylion meddygol yn cael eu gwirio, bod digon o amser wedi'i neilltuo, bod esboniadau clir yn cael eu rhoi, a'u bod yn cael eu trin â pharch ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau.

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd amrywiaeth eang o daflenni a phosteri ar gael i gleifion yn ardal y dderbynfa a'r ardal aros a oedd yn hyrwyddo dewisiadau iach a ffynonellau cymorth. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, yfed llai o alcohol a bwyta'n iach. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael a oedd yn hyrwyddo brechiadau a phrofion sgrinio, yn ogystal â ffynonellau cymorth i gleifion a oedd yn rheoli cyflyrau meddygol hirdymor neu'n darparu gofal i eraill.

Roedd gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond ni welwyd bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, fel print bras.

Dylai'r practis ystyried darparu gwybodaeth mewn fformatau amgen.

Roedd gwybodaeth am y practis a'r gwasanaethau a ddarperir ar gael mewn taflen a oedd yn cael ei dosbarthu i gleifion adeg cofrestru. Gwnaethom nodi mai prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael ar wefan y practis a bod angen ei gwella.

Dylai'r practis adolygu a diweddarau cynnwys gwefan y practis.

Roedd pawb a ymatebodd i'n holiadur i gleifion yn cytuno bod deunyddiau gwybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion wedi'u harddangos, a'u bod yn cael cynnig cyngor ar ffyrdd iach o fyw.

Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw arwyddion clir ar flaen y practis yn nodi ei enw. Esboniodd rheolwr y practis bod arwyddion i'w gweld ar y drysau allanol yn y gorffennol ond bod drysau newydd wedi cael eu gosod yn dilyn problemau â'r drysau gwreiddiol.

Dylai'r practis osod arwyddion y tu allan i'r practis er mwyn i gleifion allu dod o hyd iddo.

Roedd gwasanaethau amrywiol wedi'u cyd-leoli ar gael i gleifion. Roedd y practis yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar ddiwrnodau gwahanol:

- Gweithiwr cymorth i deuluoedd
- Therapydd galwedigaethol, i gleifion â phroblemau iechyd meddwl
- Cyngorwyr camddefnyddio sylweddau

Roedd ymwelwyr iechyd a nyrsys ardal wedi'u lleoli yn y practis, a oedd yn sicrhau bod mwy o wasanaethau ar gael i gleifion. Roedd y practis yn darparu gwasanaethau meddygol gan feddygon teulu ar gyfer chwe gwely mewn ysbyty lleol, sy'n cynnwys cwblhau rowndiau ward ddwywaith yr wythnos. Caiff gwasanaethau meddyg teulu eu darparu i gartref nyrsio lleol hefyd.

Roedd proses a gwaith paratoi'r practis i reoli rhaglen frechu flynyddol y gaeaf yn addas ac roedd manteision y brechiad yn cael eu hyrwyddo.

Roedd staff y practis yn gweithio'n agos gyda'r grŵp cleifion i sicrhau eu bod yn cael y gofal cywir gan y gwasanaethau cywir. Roedd staff y dderbynfa wedi cael eu hyfforddi i drafod symptomau â chleifion ac i drefnu apwyntiad â gweithiwr gofal iechyd mwyaf priodol y practis neu gyfeirio'r cleifion hynny at lwybrau gofal priodol. Roedd y rhain yn cynnwys Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys, Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru, deintyddion, unedau mân anafiadau, fferyllwyr sy'n gweithio o dan y cynllun mân anhwylderau a gwasanaeth hunan-gyfeirio i weld ffisiotherapydd.

Roedd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion yn cytuno bod eu meddyg teulu yn esbonio pethau'n dda iddynt ac yn ateb eu cwestiynau. Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac roedd pob un yn cytuno eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau ac roedd bleinds wedi'u gosod ar y ffenestri allanol. Roedd llenni preifatrwydd hefyd ar gael.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau. Roedd sgrin i wahanu desg y dderbynfa yn rhannol, a oedd yn cynnig rhywfaint o breifatrwydd o'r ardal aros. Fodd bynnag, roedd dros hanner y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn nad oeddent yn gallu siarad ag aelodau o staff y dderbynfa heb gael eu clywed gan bobl eraill.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Roedd ystafell addas ar gael lle gallai cleifion siarad â'r staff os oedd angen preifatrwydd ychwanegol arnynt.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf ac ni chofnodwyd yr un achlysur lle roedd angen hebryngwr. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod hysbysiadau hebryngwyr wedi'u harddangos mewn lleoedd amlwg yn yr ystafelloedd trin a'r dderbynfa, a'u bod yn cynnig y gwasanaeth yn glir i gleifion. Roedd polisi hebryngwyr ar waith ac roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein perthnasol.

Amserol

Gofal amserol

Roedd polisi mynediad cyfredol ar waith yn y practis a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer sicrhau y gallai cleifion gael gofal yn brydlon.

Roedd yn bosibl i gleifion drefnu apwyntiadau â meddygon teulu o flaen llaw ac roedd cleifion a oedd yn gofyn am apwyntiad ar yr un diwrnod yn cael eu brysbennu gan feddyg bob bore. Roedd apwyntiadau hirach yn cael eu trefnu ar gyfer cleifion ag anableddau dysgu ac anghenion perthnasol eraill ac roedd gofalwr, perthynas neu eiriolwr yn bresennol hefyd.

Roedd staff y dderbynfa wedi cwblhau hyfforddiant ar lywio gofal a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda wrth ofyn am gyngor clinigol.

Roeddem o'r farn bod y system frysbenneu yn gweithio'n effeithiol a oedd yn golygu bod digon o apwyntiadau ar gael. Dywedodd y staff wrthym fod nifer y cleifion yn amrywio o dymor i dymor gan fod niferoedd mawr o dwristiaid yn dod i'r Bermo, gyda thua wyth gwaith yn fwy o gleifion yn ystod tymor yr haf. Roedd yn amlwg bod y practis yn llwyddo i reoli'r amrywiaeth hon mewn niferoedd.

Dywedodd dau o'r pum claf a ymatebodd i'n holiaduron wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad ar yr un diwrnod pan oedd angen iddynt weld meddyg teulu ar fyrder, ond roedd pob ymatebydd yn cytuno y gallent gael apwyntiadau cyffredin pan oedd eu hangen arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd arwyddion a gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog. Roedd nifer o siaradwyr Cymraeg yn y practis, ac roedd y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei arddangos i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' er mwyn i gleifion allu gwybod eu bod yn siarad Cymraeg ac roedd un o'r meddygon teulu partner yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfieithu er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith. Roedd dolen sain wedi'i gosod i helpu cleifion â nam ar eu clyw. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn helpu un claf ag anawsterau clywed drwy sicrhau bod dehonglydd iaith arwyddion yn bresennol iddo ac y byddent yn ceisio gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei weld gan yr un meddyg bob tro.

Roedd gwybodaeth am y practis a'r gwasanaethau a ddarperir yn cael ei rhannu â chleifion drwy'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol a thaflen wybodaeth i gleifion. Caiff y daflen wybodaeth i gleifion ei rhoi i gleifion fel arfer adeg cofrestru ac roedd copïau eraill yn cael eu hargraffu ar gais. Dywedodd y staff nad oedd copïau print bras yn cael eu creu fel mater o drefn ond y gellid gwneud hynny pe bai angen.

Roedd prosesau ar waith ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth gan wasanaethau gofal eilaidd. Roedd llythyrau a dogfennau yn cael eu sganio yn gyffredinol ar nodiadau cleifion a'u hanfon at yr ymarferydd gofal iechyd cywir er mwyn gweithredu yn eu cylch yn ôl yr angen.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd gan y practis bolisi priodol a chyfredol ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd y polisi hwn yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol a nodweddion gwarchodedig.

Roedd y practis yn cynnig mynediad da i gleifion ac roedd cadair olwyn ar gael i gleifion ei defnyddio. Roedd yr holl ardaloedd i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, gyda mynediad gwastad drwy'r practis. Roedd drysau llydan, a oedd yn agor i'r ddau gyfeiriad, yn arwain i mewn i'r practis. Dywedodd y staff bod modd gweld y cleifion a oedd yn dod i mewn i'r practis yn glir a'u bod yn cynnig cymorth pe bai angen. Roedd y thoiled hygyrch yn cynnwys handlenni cydio, ond nid oedd unrhyw linyddau larwm brys wedi'u gosod yno.

Roedd yr ardal aros yn fawr ac yn lân ac roedd digon o seddi ar gael. Fodd bynnag, nid oedd breichiau na system codi o'r gadair ar unrhyw seddi i helpu cleifion ag unrhyw broblemau symudedd.

Dylai'r practis gynnal adolygiad o fynediad i bobl anabl er mwyn ystyried a ellid gwneud addasiadau rhesymol pellach.

Roedd hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu, a chadarnhaodd y staff fod rhagenwau ac enwau a ffefrir yn cael eu nodi'n glir ar gofnodion y cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio'r practis. Roedd y practis yn lân ac yn dachus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da ar y cyfan.

Gwnaethom nodi bod angen rhoi sylw i rannau o'r adeilad, gan gynnwys ffenestr a oedd wedi'i difrodi yn yr ardal staff a mân ddifrod i'r plaster a'r gwaith paent yn yr ystafelloedd trin.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i osod llawr priodol yn lle'r carped presennol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod rhaglen waith ar gael i flaenoriaethu materion cynnal a chadw a mynd i'r afael â nhw.

Roedd mesurau diogelwch tân ar waith yn y practis, gan gynnwys swyddogion tân hyfforddedig, allanfeydd tân, diffoddwyr tân a system larwm. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y llwybrau dianc rhag tân wedi'u nodi'n glir ar arwyddion.

Rhaid i'r practis adolygu'r mesurau diogelwch tân a sicrhau y caiff llwybrau dianc rhag tân eu nodi'n glir.

Roedd gan y practis gynllun parhad busnes a oedd yn gyfredol ac ar gael i bob aelod o'r staff.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am dderbyn hysbysiadau ynghylch diogelwch cleifion a'u trosglwyddo i'r aelodau perthnasol o staff.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisi atal a rheoli heintiau ar waith ac ar gael i'r staff i gyd. Roedd y practis wedi penodi nyrs benodol yn arweinydd atal a rheoli heintiau. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant atal a rheoli heintiau priodol ar gyfer eu rolau. Dangosodd y staff ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau atal a rheoli heintiau.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y gweithdrefnau glanhau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, a bod amserlenni glanhau penodol bellach wedi'u rhoi ar ddrysau pob ystafell.

Roedd archwiliad atal a rheoli heintiau wedi'i gynnal, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd na bod cynllun gweithredu ar waith.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff archwiliadau atal a rheoli heintiau eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn ac y caiff cynlluniau gweithredu priodol eu rhoi ar waith.

Roedd yr ystafelloedd trin yn cynnwys cyfleusterau hylendid dwylo. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau'r rhain er mwyn cyrraedd y safonau atal a rheoli heintiau cyfredol, fel gosod tapiau cymysg a chefnfyrddau heb deils â growt a dim draenau gorlifo.

Roedd carpedi ym mhob un ond un o'r ystafelloedd trin, sy'n atal mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod trefniadau priodol ar waith i'r ystafelloedd hyn gael eu glanhau'n drylwyr. Fodd bynnag, dywedodd rheolwr y practis wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i osod llawr priodol yn lle'r carped presennol. At hynny, roedd papur wal yn un o'r ystafelloedd trin a oedd yn atal mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol. Roedd gwelyau ffrâm bren i gleifion, nad oeddent yn cael eu defnyddio, yn yr ystafelloedd trin, sy'n atal mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol.

Er mwyn sicrhau bod mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith, rhaid i'r practis wneud yn siŵr bod y gwaith canlynol yn cael ei gwblhau yn yr ardaloedd clinigol o fewn amserlen resymol:

- Diweddarau'r cyfleusterau hylendid dwylo
- Gosod llawr newydd yn lle'r carpedi a thynnu'r papur wal
- Symud yr hen welyau

Gwelsom fod gweithdrefnau cyfredol ar waith er mwyn rheoli gwastraff. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd caeadau ar y rhan fwyaf o'r biniau gwastraff clinigol. Roedd bagiau o wastraff clinigol a oedd yn aros i gael eu casglu yn cael eu storio'n ddiogel, ond nid oeddent wedi cael eu labelu'n briodol.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff caeadau eu gosod ar y biniau gwastraff clinigol ac y caiff bagiau gwastraff clinigol eu labelu'n briodol.

Roedd gan y practis bolisi cyfredol ar anafiadau a achosir gan nodwydd. Gwnaethom nodi nad oedd aelodau o'r staff yn ymwybodol o'r angen posibl i fynd i adran achosion brys pe byddent yn cael anaf a achosir gan nodwydd ac nid oedd siartiau llif yn cael eu harddangos. Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad a

chafodd siartiau llif anafiadau a achosir gan nodwydd eu harddangos yn yr ystafelloedd trin.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gan yr aelodau perthnasol o staff clinigol imiwnedd rhag Hepatitis B, fel rhan o'r gweithdrefnau recriwtio.

Roedd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC a oedd wedi cael triniaethau mewnwthiol yn cytuno bod y staff wedi gwisgo menig yn ystod y driniaeth, bod y cyfarpar wedi cael ei becynnu'n unigol a bod weips gwrthfacterol wedi'u defnyddio i lanhau'r croen cyn dechrau'r driniaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur fod y practis yn lân iawn.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel. Roedd presgripsiynau rheolaidd yn cael eu hargraffu gan y staff gweinyddol a'u hawdurdodi'n briodol gan feddyg teulu.

Roedd un o nyrsys y practis yn gweithredu fel y rhagnodydd anfeddygol. Gwelsom ei bod wedi cael ei mentora, a'i bod yn cael ei chefnogi a'i goruchwyllo'n briodol. Roedd y practis hefyd yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r broses ymgynghori a rhagnodi, a oedd yn enghraifft o arfer da.

Gwnaethom edrych ar y Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion. Nodwyd gennym fod rhannau o'r wybodaeth wedi dyddio a bod angen ei dileu, a gwnaethpwyd hynny yn ystod yr arolygiad. Roedd Cyfarwyddiadau eraill ar gyfer Grwpiau Cleifion yn foddhaol ar y cyfan, ond roedd angen rhoi rhywfaint o sylw i rai ohonynt i sicrhau eu bod wedi cael eu cwblhau a'u hawdurdodi'n gywir.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion yn cael eu cwblhau a'u hawdurdodi'n gywir.

Gwelsom fod y practis yn cadw cyffuriau a reolir yn ddiogel ac mewn pecynnau â sêl ddiogelwch arnynt. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod hyn yn cynnwys cyffuriau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio y dylid bod wedi'u gwaredu. Yn ystod yr arolygiad, gwnaeth rheolwr y practis drefniadau i waredu'r cyffuriau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio yn briodol. Roedd y cofnodion ar gyfer cyffuriau a reolir yn cyd-fynd â lefelau'r stoc. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid gwella'r broses cadw cofnodion er mwyn dangos y gwiriadau stoc wythnosol a chynnwys manylion y broses waredu pe byddai unrhyw ffiolau ond yn cael eu defnyddio'n rhannol.

Dywedodd y practis wrthym y byddent yn adolygu'r gofynion ar gyfer storio cyffuriau a reolir, gan gynnwys y cais i waredu eitemau presennol o'r stoc ar

ddiwrnod yr arolygiad. Os caiff cyffuriau a reolir eu cadw yn y dyfodol, mae'n rhaid rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod gweithdrefn weithredu safonol ar gael yn y practis sy'n cwmpasu'r broses o archebu, storio, rhoi, cofnodi, a dinistrio cyffuriau, yn unol â'r fframweithiau cyfreithiol perthnasol. Rhaid cadw cofrestr cyffuriau a reolir archwiliedig ar y safle, er mwyn dangos bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal, a sicrhau ei bod ar gael yn hwylus i'w harchwilio ar unrhyw adeg.

Gwnaethom edrych ar y cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir i reoli argyfyngau meddygol. Gwelsom nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal, ac nad oedd yr holl feddyginiaethau brys yn cael eu cadw gyda'i gilydd er mwyn sicrhau y gellir cael gafael arnynt yn hwylus ac mewn modd amserol.

Roedd y cyffuriau brys yn bodloni gofynion sylfaenol safonau ansawdd gofal sylfaenol Cyngor Adfywio'r DU. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal gorau, dylai'r practis ystyried ei grŵp cleifion, y mathau o argyfyngau meddygol y gellid yn rhesymol eu disgwyl a lefel y gofal y gallai'r staff clinigol ei ddarparu, a ph'un a ddylid cynnwys cyffuriau brys ychwanegol. Er enghraifft, mae'r practis yn darparu gwasanaeth camddefnyddio sylweddau sydd felly'n cynyddu'r risg y gallai defnyddwyr opioidau ddod i'r practis a dylid ystyried Naloxone fel cyffur y dylid ei gadw ar y safle ar gyfer argyfyngau. At hynny, mae'r adran achosion brys agosaf yn bell o'r practis, a gall ei natur wledig a'r gofynion ar Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans GIG Cymru arwain at amseroedd aros hir am ambiwlans pe bai angen un.

Roedd hyn yn arwain at gynnydd o ran y risg i ddiogelwch cleifion ac ymdriniwyd â'r mater o dan broses sicrwydd ansawdd ar unwaith AGIC. Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

Roedd diffibriliwr allanol awtomataidd ar gael, a oedd wedi'i wefru'n llawn, ynghyd â phadiau diffibriliwr i oedolion a phlant. Nid oedd unrhyw arwyddion i ddangos lleoliad y cyfarpar brys.

Rhaid i'r practis sicrhau bod arwyddion priodol ar gael i ddangos lleoliad y cyfarpar brys.

Roedd brechlynnau'n cael eu storio'n briodol mewn oergelloedd brechlynnau pwrpasol a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n flynyddol. Roedd polisi cadwyn oer cyfredol ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau y mae angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio'n ddiogel, a rhoddwyd sicrwydd i ni fod y staff yn gwybod pa gamau i'w cymryd pe bai'r gadwyn oer yn cael ei thorri. Cawsom dystiolaeth o

wiriadau tymheredd a gynhelir ddwywaith y dydd er mwyn cadarnhau y cydymffurfir â'r polisi.

Gwnaethom wirio'r cyffuriau a gaiff eu storio yn yr ystafelloedd trin a nodwyd gennym bod dyddiadau derbyniol arnynt. Gwnaethom nodi nad oedd gwiriadau o dymheredd yr ystafell yn cael eu cynnal i sicrhau y caiff y cyffuriau eu cadw o dan amodau storio priodol.

Dylai'r practis gynnal a chofnodi gwiriadau o dymheredd yr ystafell er mwyn sicrhau bod y cyffuriau yn cael eu storio o dan amodau priodol.

Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar ymdrin ag argyfyngau meddygol ac achosion o adfywio cardiopwlmonaidd.

Diogelu plant ac oedolion

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu sydd ar waith yn y practis a gwelsom fod polisi cynhwysfawr ar waith sy'n cynnwys oedolion a phlant a'i fod yn cyfeirio at weithdrefnau diogelu Cymru. Roedd y polisi ar gael i bob aelod o'r staff ar yriant a rennir. Roedd gan y practis arweinydd diogelu a enwir a dirprwy arweinydd diogelu a enwir, a oedd wedi'u cofnodi yn y polisi.

Roedd proses ar waith i sicrhau bod modd i'r staff adnabod cofnodion meddygol plant â statws diogelu, ynghyd â'u rhieni/gofalwyr a'u brodyr a'u chwiorydd drwy nodwr rhybudd yng nghofnodion y cleifion.

Roedd y practis yn gweithio gydag asiantaethau eraill i rannu gwybodaeth a disgrifiodd y staff enghraifft lle roedd hyn wedi arwain at sefyllfa lle cafodd camau priodol eu cymryd i gefnogi ac amddiffyn plentyn. Roedd pryderon mewn perthynas ag amddiffyn plant a oedd yn codi yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd dyddiol. Fodd bynnag, nid oedd cyfarfodydd amddiffyn plant mewnol ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Dylai'r practis gyflwyno cyfarfodydd wedi'u cofnodi'n ffurfiol yn y practis i drafod materion diogelu.

Roedd y matrices hyfforddiant yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant perthnasol ar ddiogelu hyd at y lefel briodol.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau a'r chyfarpar meddygol mewn cyflwr da ac yn ddiogel i'w defnyddio, a bod gwiriadau priodol wedi'u cynnal arnynt. Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol ac yn cael eu gwaredu'n gywir.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol yn gyfrifol am wirio'r dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol bob dydd a rhoi gwybod am unrhyw broblemau i reolwr y practis.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau addas ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd staff i drafod diweddariadau clinigol, gwersi i'w dysgu, a chanllawiau newydd.

Roedd proses briodol ar gyfer rheoli digwyddiadau o bwys lle gellid rhoi gwybod am ddigwyddiadau drwy system ar-lein Datix. Disgrifiodd y staff enghraifft lle rhoddwyd y broses hon ar waith, gan gynnwys nodi a rhannu gwersi i'w dysgu, a arweiniodd at arferion gwell.

Roedd atgyfeiriadau yn cael eu rheoli'n briodol, gan gynnwys atgyfeiriadau safonol ac atgyfeiriadau brys. Dywedodd y staff wrthym fod canlyniadau'r holl brofion yn cael eu hadolygu gan feddyg teulu o fewn dau ddiwrnod i'w derbyn, a'u bod wedyn yn cael eu dyrannu'n briodol, bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd a bod nodiadau yn cael eu hatodi i gofnod y claf. Yn gyffredinol, gofynnir i gleifion ffonio'r practis i gael canlyniadau, ond byddai staff y practis yn cysylltu â nhw'n uniongyrchol os oedd angen cymryd camau ar fyrder.

Roedd system ffôn y practis yn hysbysu unigolion a oedd yn ffonio â chyflwr brys y dylid ffonio 999. Roedd cleifion yr oedd angen cymorth meddygol brys arnynt neu'r rhai hynny a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl yn cael cymorth a gwybodaeth addas. Roedd y practis hefyd yn cynnal clinigau i gefnogi cleifion â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion electronig 10 claf a oedd yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â'r gofynion deddfwriaethol.

Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn gynhwysfawr ac o ansawdd da iawn. Roeddent yn cynnwys tystiolaeth i ddangos bod asesiadau amserol a phriodol o broblemau clinigol yn cael eu cynnal, a bod arwyddion, ymchwiliadau, triniaeth ac atgyfeiriadau clinigol perthnasol yn cael eu cofnodi.

Gwelsom dystiolaeth bod codau READ priodol yn cael eu defnyddio, bod problemau meddygol sylweddol blaenorol yn cael eu rhestru, bod meddyginiaethau rheolaidd yn cael eu cofnodi'n gywir a'u bod yn cynnwys dyddiadau adolygu priodol. Gwelwyd

enghreifftiau o gofnodion a oedd yn cynnwys gwybodaeth am alergeddau i feddyginiaethau ac o gydsyniad y cleifion i rannu gwybodaeth ag aelod o'u teulu.

Roedd cofnodion y cleifion wedi'u cwblhau ar y pryd, ac roedd y wybodaeth wedi'i chyflwyno mewn ffordd a oedd yn ei gwneud yn hawdd i glinigwyr eraill ei gweld.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn modd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd. Roedd gwasanaethau amrywiol eraill yn cael eu darparu yn y practis, fel therapydd galwedigaethol, gweithiwr cymorth i deuluoedd a chynghorwyr camddefnyddio sylweddau. At hynny, roedd ymwelwyr iechyd a nyrsys ardal yn cynnig gwasanaeth ar y safle.

Dywedodd y staff clinigol wrthym eu bod yn teimlo bod cyfleoedd iddynt rannu'r gwersi y maent wedi'u dysgu ac i drefnu gwaith rhyngddynt eu hunain i wella effeithlonrwydd.

Roedd gwybodaeth glinigol yn cael ei rhannu o fewn y practis drwy ddefnyddio system electronig EMIS. Dywedodd y staff wrthym fod y practis hefyd yn bwriadu newid i ddefnyddio system rhagnodi electronig yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd ymatebion y staff i holiadur AGIC yn adlewyrchu amgylchedd gwaith cadarnhaol gyda'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a'u cefnogi'n ddigonol yn eu rolau.

Roedd pob un o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn gallu awgrymu gwelliannau a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Nododd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cwblhau hyfforddiant priodol a'u bod wedi cael arfarniad neu adolygiad datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno bod cymysgedd sgiliau priodol, deunyddiau digonol, a digon o staff i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

Roedd pob aelod o'r staff yn teimlo bod y practis yn cymryd camau gweithredu cadarnhaol o ran iechyd a llesiant a'u bod yn gallu sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Roedd ymwybyddiaeth o gymorth iechyd galwedigaethol hefyd yn uchel.

Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Lle rhagorol i weithio ynddo. Mae pob aelod o'r staff, gan gynnwys y meddygon, y nyrsys a staff yr ymddiriedolaeth yn hapus i weithio yma.”

“Mae'n lle arbennig i weithio ynddo ac mae'r criw yn dda ac yn gyfeillgar.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu mewn ffordd gynaliadwy. Roedd rheolwr y practis yn bartner rheoli ac yn darparu arweinyddiaeth glir a gweladwy. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu mynd at y tîm rheoli i godi unrhyw faterion neu bryderon a bod rheolwr y practis yn sicrhau ei fod ar gael yn y practis cymaint â phosibl.

Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer. Roedd yn amlwg hefyd fod tîm rheoli cefnogol ac ymroddedig yn gweithio er budd pennaf y staff a'r cleifion. Roedd arweinwyr dynodedig ar waith i gyflawni rolau amrywiol, gan gynnwys diogelu ac atal a rheoli heintiau, ac roedd nyrs arweiniol wedi'i phenodi.

Gwelsom fod staff y practis yn cydweithio'n dda ac yn ôl y trafodaethau a gawsom, roedd y tîm yn gadarnhaol ac yn cael ei gefnogi'n dda.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol. Caiff polisiau eu cadw ar yriant a rennir a oedd yn golygu y gallai pob aelod o'r staff eu gweld. Gwnaethom nodi bod rhai o'r dogfennau yn gyffredinol a byddai'n fuddiol petaent yn fwy penodol i'r practis.

Dylai'r practis adolygu'r polisiau a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis, lle y bo'n briodol.

Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd staff misol, ac roedd y cofnodion yn cael eu rhannu dros e-bost i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r rhai nad oeddent yn bresennol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau. Roedd gan bob un ohonynt wybodaeth gadarn am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roedd yn ymddangos bod pob un ohonynt yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion. Dywedwyd wrthym fod y practis yn annog datblygiad proffesiynol a gwelsom enghreifftiau o hyn, fel cefnogi nyrs y practis i gwblhau cwrs rhagnodi.

Roedd matrices hyfforddiant ar waith, ac roedd y staff yn diweddarau'r manylion ar fwrdd gwyn ac yn cynnal eu cofnodion hyfforddiant eu hunain. Roedd lefelau cydymffurfiaeth yn dda ar y cyfan; fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhywfaint o'r dystiolaeth ar gael yn hwylus. Gwnaethom argymhell y dylid defnyddio system fwy cadarn i sicrhau y gellir monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol ac i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol yn unol â'u rôl.

Rhaid i'r practis sicrhau bod system gadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant gorfodol yn effeithiol a sicrhau bod dystiolaeth o hyfforddiant perthnasol ar gael yn y practis.

Roedd polisiau a gweithdrefnau recriwtio priodol ar waith. Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geiradau a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) sy'n briodol i'r rôl.

Dangosodd rheolwr y practis system electronig a oedd wrthi'n cael ei rhoi ar waith i gofnodi manylion y staff a nodi unrhyw wybodaeth a oedd ar goll neu yr oedd angen ei diweddarau.

Gwelsom fod arfarniadau ffurfiol yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar gyfer y staff nyrsio a'r staff gweinyddol. Nid oedd cofnodion ar gael ar gyfer y meddygon am eu bod yn cael eu goruchwyllo a'u harfarnu'n allanol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd gweithdrefn gwyno a pholisi cwynion i gleifion ar waith yn y practis a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion ac roedd y polisi cwynion yn cyfleu hyn yn glir. Nodwyd gennym nad oedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys yn y weithdrefn a oedd ar gael i gleifion. Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad drwy ychwanegu'r manylion priodol.

Roedd cwynion a phryderon yn cael eu cofnodi'n briodol ynghyd â'r camau a gymerwyd. Roedd pryderon arwyddocaol hefyd yn cael eu cofnodi drwy ddefnyddio system DATIX y bwrdd iechyd ac roedd unrhyw adborth yn cael ei rannu â'r staff.

Roedd cleifion, perthnasau a gofalmwyr yn gallu rhoi adborth am y gwasanaeth mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy ddefnyddio blwch awgrymiadau yn yr ardal aros. Cynhaliwyd arolwg cleifion ym mis Ionawr 2025 gan y practisau clwstwr a dadansoddwyd y canlyniadau.

Fodd bynnag, dywedodd pedwar o'r saith claf a ymatebodd i holiadur AGIC nad oedd y practis erioed wedi gofyn am eu profiadau o'r gwasanaeth, a dywedodd pum ymatebwr nad oeddent yn gwybod sut i gwyno am wasanaeth gwael pe byddent am wneud hynny.

Roedd gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd cyfredol ar waith. Roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i leisio barn ynghylch unrhyw bryderon a all fod ganddynt, ac roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i gefnogi hyn. Yn ogystal, roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt a gallent rannu'r rhain â'u rheolwr i'w hystyried.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwnaethom ystyried y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliadau

Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR). Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel.

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth ac roedd polisïau a gweithdrefnau amrywiol ar waith i gefnogi hyn, fel polisi Llywodraethu Gwybodaeth a GDPR.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd dystiolaeth bod rhai archwiliadau clinigol a mewnol ar waith i fonitro ansawdd. Dywedwyd wrthym fod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â phob rhan o'r practis er mwyn gwneud gwelliannau.

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn ystod yr arolygiad yn barod i dderbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion, ac yn dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y practis yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r clwstwr lleol o feddygfeydd er mwyn meithrin dealltwriaeth a rennir o heriau ac anghenion y boblogaeth leol a helpu i integreiddio gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer yr ardal ehangach. Roedd y ffaith bod nyrsys ardal ac ymwelwyr iechyd wedi'u cyd-leoli yn y practis yn gwella'r broses o weithio mewn partneriaeth ac yn darparu gwasanaeth mwy effeithiol i gleifion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd gan y practis bolisi ar anafiadau a achosir gan nodwydd. Gwnaethom nodi nad oedd aelodau o'r staff yn ymwybodol o'r angen posibl i fynd i adran achosion brys pe byddent yn cael anaf a achosir gan nodwydd ac nid oedd siartiau llif yn cael eu harddangos.	Mae risg bosibl i'r staff os na chaiff camau eu cymryd yn brydlon os ceir anaf a achosir gan nodwydd.	Cafodd hyn ei drafod gyda'r nyrs arweiniol.	Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad a chafodd siartiau llif anafiadau a achosir gan nodwydd eu harddangos yn yr ystafelloedd trin.
Gwelsom fod y practis yn cadw cyffuriau a reolir yn ddiogel ac mewn pecynnau â sêl ddiogelwch arnynt. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod hyn yn cynnwys cyffuriau yr oedd y dyddiad	Rhaid i gyffuriau a reolir gael eu storio'n ddiogel a dylid gwaredu cyffuriau y mae'r dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio yn briodol ac yn brydlon	Cafodd hyn ei godi gyda rheolwr y practis.	Yn ystod yr arolygiad, gwnaeth rheolwr y practis drefniadau i waredu'r cyffuriau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio yn briodol.

defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio y dylid bod wedi'u gwaredu.	er mwyn lleihau'r risg y cânt eu camddefnyddio.		
Roedd gweithdrefn gwyno i gleifion ar waith yn y practis, ond nid oedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys ynddi.	Mae'n bosibl na fyddai'r cleifion yn gwybod sut i uwchgyfeirio pryder pe bai angen.	Cafodd hyn ei godi gyda rheolwr y practis.	Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad drwy ychwanegu'r manylion priodol.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Minfor

Dyddiad yr arolygiad: 12 Awst 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwnaethom edrych ar y cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir i reoli argyfyngau meddygol. Gwelsom nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal, ac nad oedd yr holl feddyginiaethau brys yn cael eu cadw gyda'i gilydd er mwyn sicrhau y gellir cael gafael arnynt yn	Rhaid i'r practis wneud y canlynol: a) Rhoi proses gadarn ar waith i sicrhau bod gwiriadau rheolaidd o'r cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu cynnal a'u cofnodi b) Canoli'r broses o storio cyffuriau brys i sicrhau y gellir cael gafael arnynt yn hwylus ac mewn modd amserol c) Cynnal adolygiad clinigol ac asesiad risg o'r	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal: Diogel	a) Rhoi Polisi Argyfyngau Meddygol ar waith sy'n cynnwys rhestr wirio ar gyfer cyfarpar brys a rhestr wirio ar gyfer meddyginiaethau brys. Cynnal cyfarfod practis i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r weithdrefn wirio a lleoliadau'r meddyginiaethau a'r	Sean Langridge	5 diwrnod (20/08/2025)

hwylus ac mewn modd amserol. Roedd y cyffuriau brys yn bodloni gofynion sylfaenol safonau ansawdd gofal sylfaenol Cyngor Adfywio'r DU. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal gorau, dylai'r practis ystyried a ddylid cynnwys cyffuriau brys ychwanegol.	gwasanaethau a ddarperir gan y practis yn ddi-oed gan ddefnyddio'r cleifion sy'n cael y gwasanaethau hyn ac ystyried a yw'r cyffuriau brys priodol yn hygyrch pe bai eu hangen.		cyfarpar gan ddarparu hyfforddiant ar sefyllfaoedd brys. (Caiff ei gynnal o fewn pythefnos) b) Adolygwyd ar y cyd ag un o'r meddygon teulu ar 13/08/2025. Dylai'r troli gynnwys yr holl gyfarpar adfywio. Caiff y meddyginiaethau brys eu cadw'n ganolog yn un o ddroriau'r ystafell drin a fydd wedi'i labelu'n glir fel meddyginiaethau brys. Bydd y drôr hefyd yn cynnwys taflen wedi'i lamineiddio â chyfarwyddiadau ar ddosau. c) Anfonwyd neges e-bost at aelodau'r	
--	--	--	---	--

				Pwyllgor Rheoli Lleol ar 13/08/2025 i gadarnhau eu bod yn deall pa feddyginiaethau y dylid eu cadw. Cafodd Mythbuster 9 ei adolygu ar y cyd ag un o'r meddygon teulu partner. Caiff ei rannu â'r Meddyg Teulu Partner arall 15/08/2025 llunio asesiad risg ac archebu meddyginiaethau ar gyfer y practis.		
--	--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Sean Langridge

Teitl swydd: Partner Rheoli/Rheolwr y Practis

Dyddiad: 13/08/2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Minfor

Dyddiad yr arolygiad: 12 Awst 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond ni welwyd bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, fel print bras.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal 2023 - Gwybodaeth	Mae taflen y practis ar gael mewn print bras. Adolygu'r taflenni allanol presennol i gadarnhau a ydynt ar gael mewn fformatau eraill.	Sean	Wedi'i gwblhau
2.	Prin oedd y wybodaeth a oedd ar gael i gleifion ar wefan y practis ac roedd angen ei gwella.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal 2023 - Gwybodaeth	Adolygu a diweddarau'r wefan bresennol gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial er mwyn codio	Sean	6-12 mis
3.	Nid oedd unrhyw arwyddion clir ar flaen	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal 2023 - Gwybodaeth	Rydym wedi gofyn am ddyfynbris i roi arwydd ar y drws ffrynt.	Sean	3 mis

	y practis yn nodi ei enw.	practis er mwyn i gleifion allu dod o hyd iddo.				
4.	Roedd digon o seddi yn yr ardal aros. Fodd bynnag, nid oedd breichiau na system codi o'r gadair ar unrhyw seddi i helpu cleifion ag unrhyw broblemau symudedd.	Dylai'r practis gynnal adolygiad o fynediad i bobl anabl er mwyn ystyried a ellid gwneud addasiadau rhesymol pellach.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal 2023 - Teg	Caiff adolygiad ei gynnal - rydym wedi creu fformat ar gyfer yr adolygiad a chaiff ei goladu er mwyn nodi unrhyw bwyntiau gweithredu y gellir eu rhoi ar waith.	Sean	3 mis
5.	Nodwyd gennym fod angen rhoi sylw i ardaloedd o'r safle, gan gynnwys y canlynol: • Gosod llawr newydd yn lle'r carped • Difrod i wydr ffenestr yn un o'r ardaloedd i staff yn unig • Mân ddifrod i'r plaster a'r gwaith paent yn yr ystafelloedd trin	Rhaid i'r practis sicrhau bod rhaglen waith ar gael i flaenoriaethu materion cynnal a chadw a mynd i'r afael â nhw.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal 2023 - Diogel	Caiff archwiliad o'r safle ei gwblhau. Llunio rhestr o'r gwaith y mae angen ei gwblhau ac ystyried y drefn o ran blaenoriaeth.	Sean	3 mis

6.	Nid oedd arwyddion i nodi'r llwybrau dianc rhag tân yn glir.	Rhaid i'r practis adolygu'r mesurau diogelwch tân a sicrhau y caiff llwybrau dianc rhag tân eu nodi'n glir.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal 2023 - Diogel	Trafodwyd y mater â'r cwmni diogelwch tân a bydd yn cynnal asesiad ar 1 Hydref.	Sean	Wedi'i gwblhau
7.	Roedd archwiliad atal a rheoli heintiau wedi'i gynnal, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd na bod cynllun gweithredu ar waith.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff archwiliadau atal a rheoli heintiau eu cynnal yn rheolaidd a bod cynlluniau gweithredu priodol yn cael eu rhoi ar waith.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal 2023 - Diogel	Caiff yr archwiliad atal a rheoli heintiau ei gynnal bob blwyddyn, a byddwn yn rhoi'r cynlluniau gweithredu ar waith. Byddwn yn gweithredu mewn perthynas â'r gwaith cynnal a chadw.	Sean/Sian	3 mis
8.	Roedd angen diweddarau'r ystafelloedd trin i sicrhau y gellir cynnal mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol.	Er mwyn sicrhau bod mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith, rhaid i'r practis wneud yn siŵr bod y canlynol yn digwydd yn yr ystafelloedd trin: • Diweddarau'r cyfleusterau hylendid dwylo • Gosod llawr newydd yn lle'r carpedi a thynnu'r papur wal	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal 2023 - Diogel	Caiff yr adran hon ei chwblhau ar y cyd â phwyntiau 5 a 7.	Sean	3 mis

		• Symud yr hen welyau				
9.	Nid oedd caeadau ar y rhan fwyaf o'r biniau gwastraff clinigol. Roedd bagiau o wastraff clinigol a oedd yn aros i gael eu casglu yn cael eu storio'n ddiogel, ond nid oeddent wedi cael eu labelu'n briodol.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff caeadau eu gosod ar y biniau gwastraff clinigol ac y caiff bagiau gwastraff clinigol eu labelu'n briodol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 - Diogel	Rydym wedi archebu biniau a chaiff y bagiau gwastraff clinigol eu labelu bellach	Sean	2 wythnos
10.	Roedd angen rhoi rhywfaint o sylw i rai o'r Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion i sicrhau eu bod wedi cael eu cwblhau a'u hawdurdodi'n gywir.	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion yn cael eu cwblhau a'u hawdurdodi'n gywir.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 - Diogel	Mae'r holl Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion wedi cael eu diweddarau a'u cymeradwyo.	Sian/Sally	Wedi'i gwblhau
11.	Nid oedd unrhyw arwyddion ar gael i ddangos lleoliad y cyfarpar brys a ddefnyddir ar gyfer argyfyngau meddygol.	Rhaid i'r practis sicrhau bod arwyddion priodol ar gael i ddangos lleoliad y cyfarpar brys.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 - Diogel	Ar waith.	Sean	Wedi'i gwblhau

12.	Gwnaethom wirio'r cyffuriau a gaiff eu storio yn yr ystafelloedd trin a nodwyd gennym bod dyddiadau derbynol arnynt. Gwnaethom nodi nad oedd gwiriadau o dymheredd yr ystafell yn cael eu cynnal i sicrhau y caiff y cyffuriau eu cadw o dan amodau storio priodol.	Dylai'r practis gynnal a chofnodi gwiriadau o dymheredd yr ystafell er mwyn sicrhau bod y cyffuriau yn cael eu storio o dan amodau priodol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 - Diogel	Rydym wedi archebu thermomedrau a byddwn yn addasu taflenni rheoli'r oergell i ddogfennu'r tymereddau.	Sean	2 wythnos
13.	Roedd pryderon mewn perthynas ag amddiffyn plant a oedd yn codi yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd dyddiol. Fodd bynnag, nid oedd cyfarfodydd amddiffyn plant mewnol ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.	Dylai'r practis gyflwyno cyfarfodydd wedi'u cofnodi'n ffurfiol yn y practis i drafod materion diogelu.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 - Diogel	Mae'r mater hwn bellach wedi'i gynnwys ar agenda'r cyfarfodydd staff.	Sean	Wedi'i gwblhau

14.	Roedd amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd rhai o'r dogfennau yn gyffredinol a byddai'n fuddiol petaent yn fwy penodol i'r practis.	Dylai'r practis adolygu'r polisiau a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn benodol i'r practis, lle y bo'n briodol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 - Effeithlon	Caiff adolygiad llawn arall ei gynnal o'r polisiau i sicrhau eu bod yn benodol i'r practis	Sean	12 mis
15.	Gwnaethom argymhell y dylid defnyddio system fwy cadarn i sicrhau y gellir monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol ac i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y staff yn gyfredol yn unol â'u rôl.	Rhaid i'r practis sicrhau bod system gadarn ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant gorfodol yn effeithiol a sicrhau bod tystiolaeth o hyfforddiant perthnasol ar gael yn y practis.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 - Y Gweithlu	Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio byrddau gwyn yn yr ystafell nyrsio ac ardal y dderbynfa. Rydym wrthi'n ystyried defnyddio technoleg yn lle'r byrddau gwyn hyn (wrthi'n cael ei ddatblygu)	Sean	12 mis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sean Langridge

Teitl swydd: Partner Rheoli

Dyddiad: 30 Medi 2025